Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Y Trallwng

Ffordd Salop
Y Trallwng
Powys
SY21 7RE

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Y Trallwng

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Uwchradd Y Trallwng |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 789 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 673 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 113 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 21.1%) | 17.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 11.2%) | 15.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 2.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 4.2% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 02/02/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/05/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Yn Ysgol Uwchradd Y Trallwng, mae arweinwyr a staff yn ymroi i greu amgylchedd gofalgar a chefnogi lles disgyblion trwy ymyriadau teilwredig. Mae diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol, ac mae'n mynd i'r afael yn gyflym ag unrhyw faterion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r ymagwedd a ddiwygiwyd yn ddiweddar at gefnogi ymddygiad ac ymgysylltiad da wedi llwyddo i leihau achosion o darfu ar lefel isel mewn gwersi. Mae disgyblion yn cael arweiniad a mentora buddiol i gefnogi eu dysgu a'u datblygiad personol, ac mae trefniadau cryf ar waith i gefnogi lles disgyblion pan fyddant yn symud o addysg gynradd i addysg uwchradd.

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn rhy amrywiol. Mae bron pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn ac yn gweithredu fel modelau iaith effeithiol, gan sefydlu perthnasoedd cynnes a chefnogol â disgyblion. Fodd bynnag, yn hanner y gwersi, o ganlyniad i ddiffygion mewn addysgu, nid yw disgyblion yn gwneud y cynnydd y gallent. Yn aml, nid oes gan athrawon yn y gwersi hyn ddisgwyliadau uchel, maent yn darparu gweithgareddau nad ydynt yn ddigon heriol, ac nid ydynt yn addasu eu haddysgu i gynorthwyo disgyblion â medrau gwannach. Nid yw athrawon, yn gyffredinol, yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg. Yn ychwanegol, mae diffyg manwl gywirdeb mewn adborth ysgrifenedig mewn lleiafrif o achosion, ac nid yw'n cefnogi gwelliant yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn arddel ymagwedd ystyriol at roi Cwricwlwm i Gymru ar waith, gan anelu at wella addysgu ac annog cydweithio ar draws gwahanol feysydd dysgu. Mae'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion hŷn yn eang a chytbwys, yn cael ei ffurfio gan lais y disgybl, ac wedi'i gynllunio i fodloni eu nodau cyffredinol a galwedigaethol. Fodd bynnag, mae lefel yr her yn amrywio ar draws meysydd dysgu, ac nid yw olrhain a monitro cynnydd disgyblion mewn blynyddoedd iau wedi'i datblygu'n ddigonol, sy'n ei gwneud yn anodd i arweinwyr werthuso effaith y cwricwlwm a gwybod p'un a yw disgyblion yn gwneud cynnydd addas. Yn ychwanegol, mae angen gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol.

Er gwaethaf ymrwymiad arweinwyr i wella cyflawniad pob disgybl, dros gyfnod, mae arweinyddiaeth wedi cael effaith annigonol ar agweddau pwysig fel ansawdd yr addysgu a datblygiad medrau. Er bod presenoldeb ysgol gyfan yn gwella'n araf, mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn benodol, yn peri pryder. Mae uwch arweinwyr yn cefnogi'r pennaeth, ond ni chaiff eu gwaith ei fonitro na'i werthuso'n ddigon da. Ymhellach, ni chaiff cyfrifoldeb arwain ei ddosbarthu'n gyfartal, ac mae gorgyffwrdd yn rhy aml gan arwain at linellau atebolrwydd aneglur.

Mae llywodraethwyr yn gefnogwyr brwdfrydig ac ymroddgar i'r ysgol, ac yn dechrau herio arweinwyr yn briodol. Mae'r pennaeth, ynghyd â'r rheolwr busnes a'r corff llywodraethol, yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus, gan gyfrannu at ostwng y diffyg yn y gyllideb yn sylweddol. Fodd bynnag, nid yw defnydd yr ysgol o'r grant datblygu disgyblion (GDD) bob amser wedi bod yn briodol ac nid yw wedi cael effaith ddigonol ar bresenoldeb a chyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pump o argymhellion i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Cryfhau arweinyddiaeth i sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn deg a chlir, a sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel yn gwerthuso'u gwaith yn gywir ac yn drylwyr, a sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen

A2. Gwella ansawdd yr addysgu i sicrhau her briodol ar gyfer pob un o'r disgyblion

A3. Gwella cynllunio trawsgwricwlaidd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn raddol

A4. Gwella presenoldeb, yn enwedig presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

A5. Cynyddu'r cyfleoedd a gaiff disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn fod angen mesurau arbennig yn gysylltiedig â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol, fel arfer bob pedwar i chwe mis.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae ansawdd yr addysgu yn amrywio'n sylweddol ar draws yr ysgol. Mewn tua hanner yr achosion, mae disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd digonol, o leiaf, o ran datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau.

Yn y gwersi hyn, mae athrawon:

- yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn ac yn gweithredu fel modelau iaith effeithiol
- yn trin disgyblion yn deg a gyda pharch
- yn dangos brwdfrydedd am eu pwnc, gan gynllunio gweithgareddau sy'n cynyddu mewn her yn briodol
- yn sefydlu cyflymdra dysgu addas, gan gynnal diddordeb disgyblion
- yn mynd i'r afael â chamdybiaethau ac yn dal disgwyliadau addas o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sefydlu perthnasoedd cynnes a chefnogol â disgyblion, ac mae llawer ohonynt yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gyson dda. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb trwy fod yn gwrtais ac yn barchus tuag at ymwelwyr, athrawon a'u cyfoedion, ac maent yn cyrraedd gwersi'n brydlon.

Mewn ychydig iawn o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Maent yn cynllunio'u gwersi'n greadigol i ennyn chwilfrydedd disgyblion a'u hannog i feddwl drostynt eu hunain. Maent yn holi disgyblion yn fedrus i brocio ac ymestyn eu dealltwriaeth. O ganlyniad, mae disgyblion yn y gwersi hyn yn gwneud cynnydd cyflym yn eu gwybodaeth a'u medrau pynciol.

Mewn tua hanner y gwersi, mae diffygion mewn addysgu yn golygu bod disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig. Yn y gwersi hyn:

- nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni
- mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau nad ydynt yn ddigon heriol, yn enwedig ar gyfer disgyblion mwy abl
- nid yw athrawon yn addasu eu haddysgu i gefnogi'r rhai â medrau gwannach
- mae athrawon yn gofyn cwestiynau caeedig, yn bennaf, i wirio bod disgyblion yn galw i gof

- nid yw athrawon yn gofyn cwestiynau sy'n procio meddwl disgyblion yn ddigon manwl
- mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n cadw disgyblion yn brysur, fel copïo oddi ar y bwrdd neu gwblhau chwileiriau, yn hytrach na chefnogi eu dysgu
- nid yw athrawon yn mynd i'r afael â chamdybiaethau disgyblion yn effeithiol
- mae athrawon yn darparu gwersi lle mae cyflymdra'r dysgu yn rhy araf

Nid yw ychydig o athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn ddigon da nac yn sicrhau bod disgyblion yn ddigon sylwgar yn ystod rhannau allweddol o'r wers. Nid ydynt yn darparu cyfleoedd digonol ar gyfer trafod a chydweithio. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn tueddu i fod yn oddefgar. Er eu bod yn cydymffurfio ac yn eistedd yn dawel, nid ydynt yn mynd ati i gyfrannu nac yn gwrando'n astud ar eu hathrawon. Mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a wnânt.

Mewn lleiafrif o achosion, mae diffyg manwl gywirdeb mewn adborth ysgrifenedig, ac nid yw hyn yn fuddiol o ran cefnogi gwelliant. Yn yr achosion hyn, mae'r marcio yn anfynych neu'n arwynebol, ac yn aml, nid yw gwallau mewn llythrennedd yn cael eu cywiro.

Mae'r ysgol wedi dechrau nodi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw staff wedi ystyried pa mor dda y mae'r cyfleoedd hyn yn datblygu medrau disgyblion yn raddol neu'r effaith a gânt ar gynnydd disgyblion. Mae hyn yn cynnwys adolygu methiant disgyblion i drosglwyddo'u dysgu o wersi medrau ar wahân, sy'n cael eu defnyddio pan fydd dosbarthiadau'n cael eu haddysgu gan fwy nag un athro. Yn sgil y diffyg sicrhau ansawdd trylwyr hwn, mae disgyblion yn parhau i elwa ar ystod gyfyngedig yn unig o gyfleoedd gwerthfawr a pherthnasol i ddatblygu a chymhwyso'u medrau.

Nid yw tua hanner y disgyblion yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon a'u cyfoedion, ac maent yn aml yn methu cyfarwyddiadau a gwybodaeth a fyddai'n cefnogi eu dysgu. Mae staff wedi elwa ar hyfforddiant allanol i helpu cryfhau medrau llafar disgyblion, ond nid yw'r strategaethau a roddwyd iddynt wedi cael eu defnyddio'n gyson. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o eirfa yn hyderus ac yn darparu ymatebion tra datblygedig, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnig ymatebion byr ac yn defnyddio geirfa fwy cyfyngedig. Yn aml, nid yw athrawon yn mynd i'r afael o hyd â'r naill a'r llall o'r rhain.

Er bod yr ysgol yn ymwybodol o bwysigrwydd darllen, at ei gilydd, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddarllen a dehongli testunau heriol ac estynedig i gefnogi eu dealltwriaeth o gysyniadau ac ehangu eu geirfa. Mae llawer o ddisgyblion yn treulio amser anghymesur ar waith yn adalw gwybodaeth sylfaenol iawn.

Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn cynhyrchu ysgrifennu wedi'i saernïo'n dda sy'n ennyn diddordeb y darllenydd yn llwyddiannus. Mae ysgrifennu tua hanner ohonynt yn dechnegol gadarn ac yn dangos dealltwriaeth glir o ddiben a chynulleidfa. Mewn tua hanner yr achosion, mae'r ysgrifennu'n rhy syml, ac fe gaiff syniadau eu mynegi'n wael. Mae'r disgyblion hyn yn gwneud gwallau sylfaenol mynych, nad ydynt yn cael eu nodi gan athrawon, mewn llawer o achosion. Nid yw'r drefn o ran marcio llythrennedd sylfaenol, hyd yn oed, wedi'i datblygu'n ddigonol ar draws yr ysgol, ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at barhau â'r gwallau hyn. Yn rhy aml, gofynnir i ddisgyblion ysgrifennu dyddiaduron, blogiau, negeseuon e-bost neu erthyglau papur newydd heb unrhyw ofyniad penodol i ddilyn confensiynau'r genres priodol.

Nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ddigon heriol. Mewn ychydig o achosion, pan roddir cyfleoedd addas i ddisgyblion mewn pynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm, mae mwyafrif ohonynt yn tynnu llun graffiau ac yn cynrychioli data yn briodol. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, maent yn creu ac yn plotio graffiau gwasgariad yn gywir, gan ychwanegu llinellau priodol sy'n gweddu orau. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw disgyblion yn tynnu llun graffiau yn gywir nac yn eu dehongli.

Mae mwyafrif y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth addas o fedrau rhif sylfaenol. Maent yn defnyddio pedair rheol rhif yn gywir, er enghraifft wrth weithio gyda chanrannau a chyfartaledd cymedrig neu wrth ddefnyddio fformiwla i gyfrifo arwynebedd cylch. Fodd bynnag, yn rhy aml, maent yn dibynnu ar lwybrau byr ac yn defnyddio rhestrau gwirio i gyfrifo atebion. O ganlyniad, nid ydynt yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau pwysig yn ddigon da. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael trafferth yn fynych i gymhwyso'u dysgu mewn pynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm.

At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cymedrol yn unig yn eu gallu i gyfathrebu yn Gymraeg. Er bod eu hynganu yn dda, mae eu geirfa yn gyfyngedig, ac yn gyffredinol, ni allant ffurfio'u brawddegau eu hunain yn annibynnol.

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu ymagwedd fyfyriol a thra ystyriol at weithredu Cwricwlwm i Gymru, gyda nod clir i ddatblygu addysgeg a hyrwyddo cydweithio ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh). Mae arweinwyr wedi mynegi gweledigaeth gydlynus ar gyfer y cwricwlwm, a ffurfiwyd trwy ymgynghori ystyrlon â disgyblion, rhieni, llywodraethwyr ac ysgolion partner. Mae'r weledigaeth gynhwysol hon yn darparu sylfaen ddefnyddiol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ar draws yr ysgol.

Ymdriniwyd â chynllunio'r cwricwlwm fel proses ailadroddol, gan ganiatáu amser ar gyfer myfyrio, datblygiad proffesiynol a mireinio. Fodd bynnag, mae lefel yr her yn anghyson ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Mae staff wedi gweithio'n agos gydag ysgolion cynradd partner i wella parhad dysgu. Fe wnaeth diwrnodau dysgu proffesiynol ar y cyd hwyluso creu mapiau dilyniant ar y cyd yn ddefnyddiol. Mae hyn yn helpu athrawon i gynllunio'n fwy effeithiol i adeiladu ar ddysgu blaenorol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7.

Nid yw olrhain a monitro cynnydd disgyblion mewn blynyddoedd iau wedi'i datblygu'n ddigonol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu arweinwyr i werthuso effaith y cwricwlwm a sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd digonol. Er bod enghreifftiau o brofiadau dysgu difyr ac wedi'u cynllunio'n dda, mae amrywioldeb yn ansawdd cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm ar draws meysydd dysgu a phrofiad yn parhau i fod yn her.

Mae'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 10 ac 11 yn eang a chytbwys. Caiff llwybrau dysgu eu ffurfio gan lais y disgybl, ac maent wedi'u cynllunio i adlewyrchu dyheadau disgyblion. Ar gyfer y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn ymestyn ei chynnig trwy gonsortiwm Chweched Powys 6. Mae partneriaethau â darparwyr eraill yn ymestyn arlwy'r cwricwlwm.

Un o nodweddion nodedig gwaith yr ysgol yw'r gefnogaeth y mae'n ei rhoi i helpu disgyblion i ystyried eu camau nesaf. Mae'r arweiniad a gynigir ganddi yn ystod cyfnodau pontio allweddol yn gryf, ac mae staff yn darparu cyngor personoledig sy'n helpu disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus a dyheadol ynglŷn â'u dyfodol. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yr ysgol yn hynod effeithiol. Trwy fanteisio ar lais y disgybl ac ystod o arbenigedd allanol, mae'n cefnogi datblygiad cyfannol ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion, ac yn eu harfogi â'r wybodaeth a'r hyder i aros yn ddiogel mewn ystod o gyd-destunau. Mae rhaglen profiad gwaith strwythuredig yn cyfoethogi'r cwricwlwm ymhellach ac yn paratoi disgyblion yn effeithiol ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar hunaniaeth leol a chysyniad cynefin, gan gynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddyfnhau eu gwerthfawrogiad o dreftadaeth a diwylliant Cymru, gan feithrin ymdeimlad o le a pherthyn. Er bod hunaniaeth ddiwylliannol yn cael ei dathlu, nid yw hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm ehangach wedi'i datblygu'n ddigonol. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi yn gyfyngedig.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae arweinwyr a staff yn Ysgol Uwchradd Y Trallwng yn dangos ymrwymiad cryf i ddarparu amgylchedd anogol. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn cefnogi eu lles trwy ymyriadau teilwredig.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cryf. Mae staff yn deall sut a phryd i adrodd am bryderon ac maent yn ymateb yn brydlon ac yn drylwyr i unrhyw faterion a godir. Maent yn

gweithio’n agos gyda phartneriaid allanol, fel gwasanaethau plant, yr heddlu a CAMHS, i sicrhau cymorth priodol ar gyfer disgyblion. Mae arweinwyr wedi cryfhau prosesau ar gyfer recriwtio staff a goruchwylio gweithdrefnau diogelu.

Mae’r ysgol wedi rhoi ymagwedd strwythuredig ar waith ar gyfer cefnogi ymddygiad ac ymgysylltiad da. Mae’r ymagwedd ddiwygiedig wedi llwyddo i leihau achosion o darfu ar lefel isel mewn gwersi dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae staff yn ymateb yn gyflym i’r achosion prin iawn o fwlio ac yn defnyddio dulliau adferol yn effeithiol i helpu disgyblion i feithrin perthnasoedd parchus â’i gilydd o’r newydd. O ganlyniad, dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion eu bod yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol.

Caiff y wybodaeth a gofnodir mewn cofnodion ymddygiad ac achosion a chanfyddiadau arolygon disgyblion eu defnyddio’n dda gan staff i lywio newidiadau i’r cwricwlwm, er enghraifft y cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Mae’r ysgol yn darparu ystod eang o ymyriadau lles buddiol i gefnogi lles a chynnydd disgyblion. Er bod y mesurau hyn yn ymatebol i anghenion disgyblion, nid yw arweinwyr yn gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau yn gyson nac yn drylwyr.

Mae’r ysgol wedi diwygio’i phrosesau a’i strwythurau i hyrwyddo presenoldeb da. Ceir prosesau addas i gefnogi disgyblion â phresenoldeb isel, gan gynnwys gweithio’n agos gyda gwasanaethau allanol a rhieni i fynd i’r afael â materion yn gyflym trwy ymyriadau cynnar.  Mae data presenoldeb a gasglwyd gan yr ysgol yn dangos bod gwelliant o gymharu â’r un cyfnod y llynedd. Mae nifer y disgyblion sy’n absennol yn barhaus wedi gostwng. Er bod arweinwyr yr ysgol yn casglu ac olrhain data presenoldeb i ddadansoddi patrymau a thueddiadau, nid ydynt yn dadansoddi’r wybodaeth hon yn ddigon manwl i nodi pa strategaethau sy’n gweithio a beth ddylid ei addasu neu’i newid. Roedd presenoldeb disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2023-2024 islaw’r cyfartaledd cenedlaethol. Er bod presenoldeb yn gwella’n araf, mae cyfraddau presenoldeb yn 2023-2024 yn parhau i fod islaw lefelau cyn y pandemig.

Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn cael arweiniad a mentora buddiol i gefnogi eu dysgu a’u datblygiad personol. Mae disgyblion yn elwa ar fentora gan diwtoriaid dosbarth, ac mae disgyblion y chweched dosbarth yn cael mentora sy’n benodol i bwnc i fynd i’r afael ag anghenion cynnydd unigol. Mae disgyblion y chweched dosbarth hefyd yn mentora’u cyfoedion mewn grwpiau blwyddyn iau, gan feithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb a chymuned. Mae llawer o’r staff a’r disgyblion wedi cael eu hyfforddi i fod yn swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi darpariaeth Calon fel man diogel i ymweld ag ef i gael cymorth ar gyfer gorbryder ac anghenion lles eraill.

Mae’r ysgol wedi sefydlu trefniadau cryf i gefnogi disgyblion sy’n symud o addysg gynradd i addysg uwchradd. Mae cydweithio rhwng arweinwyr bugeiliol, staff pwnc a staff ysgolion cynradd yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu paratoi’n dda ar gyfer y newid arwyddocaol

hwn. Er enghraifft, mae'r adran gerddoriaeth yn gweithio'n helaeth gyda staff a disgyblion ysgolion cynradd yn ystod y cyfnod hwn. Caiff disgyblion sy'n symud i'r ysgol o ysgolion uwchradd eraill eu cefnogi'n dda i ymgartrefu yn eu hamgylchedd dysgu newydd.

Ceir trefniadau cynhwysfawr i helpu disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'u llwybrau yn y dyfodol, gan ddechrau ym Mlwyddyn 9. Mae hyn yn cynnwys cynghorydd gyrfaoedd dynodedig, confensiwn gyrfaoedd blynyddol sy'n cynnwys cyflogwyr, prifysgolion, a darparwyr addysg bellach, a chyfeirio'n rheolaidd at ystod eang o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth sydd ar gael yn y sector ôl-16. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cyngor ac arweiniad teilwredig, hefyd.

Mae'r ysgol yn annog disgyblion i fynd ati i ymgysylltu â bywyd yr ysgol trwy gymryd rhan mewn ystod o gyfleoedd arwain a chynlluniau mentora. Er enghraifft, mae'r Cyngor Myfyrwyr, y Grŵp Gweithredu ar Faeth yn yr Ysgol a Grŵp Arweinyddiaeth y Chweched Dosbarth yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu at wneud penderfyniadau yn yr ysgol. Mae disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn, ac yn gweithredu arni. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi gwneud newidiadau i'r system 'galw'n ôl', sy'n annog ymddygiad cadarnhaol trwy ddulliau adferol. Mae disgyblion hefyd yn elwa ar ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sy'n cwmpasu chwaraeon, gweithgareddau academaidd a diwylliannol, y maent yn eu gwerthfawrogi ac sy'n cefnogi eu datblygiad personol yn effeithiol y tu allan i'r cwricwlwm.

Mae ymagwedd yr ysgol at gynorthwyo disgyblion ag ADY wedi'i strwythuro'n dda ac yn cyd-fynd â gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ADYTA). Mae'r prosesau ar gyfer nodi disgyblion ag ADY yn glir ac mae gan bob un o'r disgyblion perthnasol gynlluniau datblygu unigol (CDUau). Mae proffiliau un dudalen yn amlinellu anghenion a strategaethau disgyblion ar gyfer eu cynorthwyo mewn gwersi yn briodol. Mae'r tîm ADY yn rheoli CDUau yn effeithiol, yn darparu adolygiadau yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn defnyddio cynorthwywyr addysgu. Fodd bynnag, er bod ystod o ymyriadau addas yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau cymdeithasol ac emosiynol eraill, nid yw'r ysgol bob amser yn olrhain cynnydd disgyblion ar yr ymyriadau hyn yn drylwyr nac yn gwerthuso'u heffeithiolrwydd yn gadarn.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad pobl ifanc gyfrifol a hyddysg trwy godi disgwyliadau a chyflawniad pob un o'r disgyblion. Mae'n annog llywodraethwyr, staff a disgyblion i ddangos gofal am bawb a rhoi'r ysgol wrth wraidd y gymuned. Ers ei benodi, mae wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar ychydig o feysydd allweddol yng ngwaith yr ysgol, fel cryfhau'r diwylliant diogelu a goruchwylio rheolaeth ariannol fwy trylwyr. Fodd bynnag, mae arweinyddiaeth o fewn yr ysgol wedi cael effaith annigonol ar agweddau pwysig eraill ar waith yr ysgol, fel ansawdd yr addysgu a datblygu medrau disgyblion yn raddol.

Yn gyffredinol, mae uwch arweinwyr yn cynnig cymorth priodol i'r pennaeth ond ni chaiff eu gwaith ei fonitro na'i werthuso'n ddigon da. Mae hyn yn cynnwys eu cymorth a'u her ar gyfer arweinwyr canol o ran sicrhau gwelliannau i addysgu a dysgu, sydd yn aml ddim yn ddigon amserol nac effeithiol. Mae cyfrifoldebau arwain, gan gynnwys cyfrifoldebau arwain y tîm arweinyddiaeth estynedig, yn briodol, at ei gilydd, ond yn gorgyffwrdd mewn meysydd fel hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ysgol gyfan, a lles staff. Nid yw hyn yn caniatáu ar gyfer llinellau atebolrwydd clir. Ymhellach, nid yw pwysau cyfrifoldeb ar draws uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn deg ac mae ychydig o arweinwyr wedi eu gorlwytho. Mae'r grŵp arweinyddiaeth estynedig yn cynnig dysgu proffesiynol defnyddiol ar gyfer staff.

Caiff blaenoriaethau ysgol gyfan eu cydnabod a'u dathlu gan staff ac maent yn ffurfio fframwaith ar gyfer cynllunio gwelliant. Fodd bynnag, at ei gilydd, maent yn rhy eang ac nid ydynt yn fanwl gywir. O ganlyniad, nid yw arweinwyr bob amser yn gosod camau gweithredu sy'n ddigon cadarn i sicrhau gwelliannau cynaledig yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae gallu arweinwyr i werthuso'r cynnydd a wna disgyblion yn rhy amrywiol. Nid ydynt yn ystyried effaith y ddarpariaeth ar ddysgu'r disgyblion yn ddigon da. Maent yn dibynnu gormod ar ddadansoddi data ac nid ydynt yn edrych ar y cynnydd a wna disgyblion mewn llyfrau a gwersi dros gyfnod. Yn ychwanegol, mae eu gwerthusiadau o ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yn rhy gadarnhaol. Mae hyn wedi cyfrannu at y ffaith nad yw'r ysgol yn gwneud cynnydd digonol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad craidd blaenorol.

Mae prosesau i reoli perfformiad staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu yn briodol, ar y cyfan, er bod yr amcanion y cytunir arnynt yn aml yn rhy eang ac nid ydynt yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r ysgol yn ddigon manwl gywir. Mae hyn yn cynnwys cwblhau gweithgareddau dysgu proffesiynol a datblygu adnoddau heb fod yn glir am yr effaith a ddymunir. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd i staff ymgysylltu â dysgu proffesiynol. Mae athrawon yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod eu hanghenion datblygu gyda rheolwyr llinell a gallant ddilyn cyrsiau neu ddiddordebau allanol perthnasol. Mae arolygon staff yn helpu ffurfio'r rhaglen dysgu proffesiynol ac yn cynnwys cyfuniad priodol o raglenni mewnol ac allanol. Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd defnyddiol ar gyfer rhannu arfer effeithiol rhwng adrannau ac unigolion. Er gwaethaf y gwaith hwn, nid yw dysgu proffesiynol wedi arwain at welliannau digonol yn ansawdd cyffredinol yr addysgu. Mae hyn yn rhannol oherwydd nad yw'n cyd-fynd yn ddigon agos â meysydd i'w gwella mewn addysgu, sy'n adlewyrchu diffygion ehangach ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol.

Mae llywodraethwyr yn gefnogwyr brwdfrydig ac ymroddedig i'r ysgol. Mae eu gwaith fel ffrindiau beirniadol yn datblygu'n briodol ac maent yn dechrau herio arweinwyr yn briodol. Mae'r pennaeth, ynghyd â'r rheolwr busnes a'r corff llywodraethol, bellach yn

rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus, ac mae hyn wedi cyfrannu at ostwng y diffyg yn y gyllideb yn sylweddol. Fodd bynnag, nid yw defnydd yr ysgol o gyllid y Grant Datblygu Disgyblion bob amser wedi bod yn briodol ac nid yw wedi cael effaith ddigonol ar bresenoldeb a chyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Nid yw gwerthuso'r gwariant hwn ar gyfer y flwyddyn academaidd ddiwethaf yn ddigon trylwyr.

Mae'r modd y mae'r yr ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol wedi bod yn rhy amrywiol. Cafwyd ymagwedd gyson ac ystyriol at Gwricwlwm i Gymru. Mae ystod o strategaethau priodol i atal tlodi sy'n effeithio ar les a chyflawniad disgyblion bregus yn dechrau cael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, er gwaethaf gwelliannau, mae presenoldeb yn rhy isel ac mae'n ddyddiau cynnar o hyd o ran rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r pennaeth, ynghyd â'r rheolwr busnes a'r corff llywodraethol, bellach yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus, ac mae hyn wedi cyfrannu at ostwng y diffyg yn y gyllideb. Fodd bynnag, nid yw defnydd yr ysgol o gyllid y Grant Datblygu Disgyblion bob amser wedi bod yn briodol ac nid yw wedi cael effaith ddigonol ar bresenoldeb a chyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Nid yw gwerthuso'r gwariant hwn ar gyfer y flwyddyn academaidd ddiwethaf yn ddigon trylwyr.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/07/2025